

## Syniadau ar gyfer dechrau sgwrs




Ma Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel 2022 yn gyfle gwyh i gael sgwrs gyda'ch plentyn ynghylch bywyd ar-lein, ac yn arbennig y thema eleni 'Hwyl a sbri i bawb? Archwilio parch a pherthynas ar-lein.'

Defnyddiwch y cwestiynau isod i helpu i ddechrau sgwrsiau ynghylch sut y gall pob un ohonom ddefnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel, yn barchus, yn gyfrifol ac yn gadarnhaol wrth chwarae gemau a threulio amser ar-lein.

### Dechreuwch y sgwrs ar nodyn:

- Ⓜ Beth wyt ti'n ei hoffi fwyaf am y rhyngrwyd a pham?
- Ⓜ Sut wyt ti'n cael hwyl wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd a thechnoleg?
- Ⓜ Beth yw dy hoff gêm, ap neu wefan?
- Ⓜ Sut mae mynd ar-lein yn gwneud i ti deimlo?
- Ⓜ Sut mae'r rhyngrwyd a thechnoleg yn gwneud dy fywyd yn well?
- Ⓜ A wyt yn cael mwy o fwynhad o fynd ar-lein ar dy ben dy hun, neu gyda phobl eraill?



### Siaradwch am greu perthynas a chyfathrebu ar-lein:

- Ⓜ Gyda phwy wyt ti'n cyfathrebu ar-lein? Pa wahanol ddulliau wyt ti'n eu defnyddio i gyfathrebu ar-lein? (E.e. Sgwrs mewn-gêm, galwadau fideo, sgwrsiau grwpiau etc.)
- Ⓜ Beth sydd yn dda am gyfathrebu ar-lein?
- Ⓜ Beth allai fod yn heriol ynghylch cyfathrebu ar-lein?
- Ⓜ Beth sy'n wahanol am siarad ar-lein gyda rhywun o'i gymharu â siarad wyneb yn wyneb?
- Ⓜ Faint elli di ymddiried mewn pobl rwyd ti'n eu nabod ar-lein yn unig?
- Ⓜ Beth wyt ti a dy ffrindiau yn ei wneud i gadw eich hunain yn ddiogel a hapus pan fyddwch yn sgwrsio a chyfathrebu ar-lein?

Ysgogydd sgwrs


RIENI A  
GOFALWYR

#SaferInternetDay

www.saferinternetday.org.uk

## Siaradwch am ymddiried mewn pethau ar-lein:

- Ⓜ Beth mae parch yn ei olygu i ti? Sut beth yw hynny?
- Ⓜ Sut beth yw amharch ar-lein?
- Ⓜ Beth sy'n gwneud ffrind da ar-lein?
- Ⓜ Beth elli di ei wneud os byddi'n anghytuno â ffrind ar-lein?
- Ⓜ A yw pobl yn anghytuno mwy ar-lein neu all-lein? Beth ydych yn meddwl yw'r rheswm am hyn?
- Ⓜ Beth elli di ei wneud petai rhywun rwyt yn siarad â nhw ar-lein yn ymddwyn yn angharedig tuag atat ti, neu yn gwneud i ti deimlo'n bryderus, yn ofidus neu'n anghyfforddus?



## Siaradwch am gadw eich hunain ac eraill yn ddiogel ar-lein:

- Ⓜ Sut wyt ti'n cadw'n ddiogel ar-lein? Pa gyngor sydd gen ti, a ble ges ti'r cyngor yma?
- Ⓜ Wyt ti'n gwybod ble i fynd i gael help a ble mae dod o hyd i'r adnoddau diogelwch ar dy hoff apiau a gemau?
- Ⓜ Beth fyddai modd i ti ei wneud petai bod ar-lein yn gwneud i ti deimlo'n waeth yn lle'n well?
- Ⓜ Beth allet ti ei wneud pe baet yn gweld bod angen help neu gefnogaeth ar ffrind ar-lein?

